COVID-19 Update: 14th April

In this evening's COVID-19 update from Cardiff Council: extending the Free School Meals voucher scheme for another two weeks; Cardiff Council office workers redeployed to homeless service save a life; the Council offers free training to become qualified care workers; and Cardiff's parks 'quieter than normal' despite bank holiday sunshine.

Free School Meal provision – voucher scheme extended

Today, Cardiff Council has again sent Free School Meal vouchers in the post to all eligible families, providing funds for a further two weeks of provision. Each voucher has a value of £40, per child.

The Council issued two weeks' worth of vouchers before the Easter school holidays, so this latest mailing extends the voucher scheme to four weeks for the time being.

Full details of how to activate the voucher is included in an accompanying covering letter.

Click here to read see the covering letter that is being sent with the voucher: http://app.prmax.co.uk/collateral/164235.pdf

The Council is continuing to look at different options for Free School Meal provision over the longer-term, and details of that will be shared once finalised.

If any families are still to receive their voucher sent last week, they should send an email to FreeSchool.Meals@cardiff.gov.uk to inform the Council.

Cardiff Council office workers redeployed to homeless service save a life

A homeless man's life was saved by two redeployed Cardiff Council officers who rushed to give first aid when the man collapsed and stopped breathing.

Both officers had temporarily volunteered to take up posts with the Hostels and Outreach team as part of the council's redeployment project to ensure frontline services continue to operate in the face of the COVID-19 pandemic.

Val Broomfield and Ashley Evans redeployed from office-based roles with the Legal Department and the Tenancy Sustainment Team only three weeks ago. They quickly administered CPR, which revived the man.

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23626.html

Care Workers Needed

Cardiff Council is offering free rolling training courses for jobseekers and volunteers to become qualified care workers.

Working in Home Care, successful candidates can earn £9.97 p/h if unemployed. We will also pay for your DBS certificate if needed.

Previously qualified care workers are welcome and can be fast-tracked into support roles.

Our next training session:
9.30am to 3.30pm, 15th to 17th April 2020
Creative Suite, 5th Floor, Central Library, The Hayes, Cardiff CF10 1FL

Roles for drivers and non-drivers. No previous experience or qualifications needed.

Call 07970 241 918 to find out more about the course and register.

Parks Team on patrol with South Wales Police

Our parks team were Working For Cardiff out on patrol with police colleagues this weekend and despite the sunshine, Cardiff's parks were generally quiet and the majority of people were following social distancing requirements.

We want to keep parks open as long as possible, so that people can enjoy the mental and physical health benefits of exercising in the open air, but we need your help to do that.

Stay home, stay safe, and if you are visiting your local park, please ensure you follow government instructions on social distancing – and remember, that includes when you're using bridges over the city's rivers. Please let people already on the bridge clear it before crossing.

Cardiff's parks 'quieter than normal' despite bank holiday sunshine

Cardiff's parks were generally quiet this weekend with the majority of people observing social distancing requirements.

Cabinet Member for Culture and Leisure, Cllr Peter Bradbury said: "The message to stay home, stay safe seems to have been heeded by the majority of people this weekend.

"With sunny weather and high temperatures like we've had over the bank holiday weekend, Cardiff's parks would normally be full of people, but our parks staff, who have been out on patrol with the Police every day, supported by loud hailer messages broadcast by the Coastguard, have been reporting that parks were much quieter than normal and that most people were following social distancing requirements."

“I’d like to offer my thanks to all our residents – those who resisted the sunshine and stayed at home and those who took their daily exercise in our parks, but did so in a responsible manner.”

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23624.html

Diweddariad COVID-19: 14 Ebrill

Yn y diweddariad COVID-19 heno Gyngor Caerdydd: ymestyn y cynllun talebau Prydau Ysgol am Ddim am bythefnos arall; gweithwyr swyddfa Cyngor Caerdydd sydd wedi eu hadleoli i’r gwasanaethau digartrefedd yn achub bywyd; Cyngor yn cynnig hyfforddiant am ddim i ddod yn weithwyr gofal cymwys; a parciau Caerdydd 'yn dawelach na'r arfer' er gwaethaf heulwen gŵyl y banc.

Darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim – ymestyn y cynllun talebau

Heddiw, mae Cyngor Caerdydd unwaith eto wedi anfon talebau Prydau Ysgol am Ddim drwy’r post at bob teulu sy'n gymwys, gan ddarparu cyllid ar gyfer pythefnos arall o ddarpariaeth. Mae pob taleb yn werth £40.

Cyhoeddodd y Cyngor werth pythefnos o dalebau cyn gwyliau ysgol y Pasg, felly mae'r penderfyniad diweddaraf hwn yn ymestyn y cynllun talebau i bedair wythnos am nawr.

Mae manylion llawn ynghylch sut i weithredu'r daleb wedi'u cynnwys mewn llythyr eglurhaol sydd gyda’r talebau.

Cliciwch yma i weld y llythyr eglurhaol sy'n cael ei anfon gyda'r daleb:
http://app.prmax.co.uk/collateral/164235.pdf

Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn y tymor hirach, a chaiff manylion eu rhannu gynted ag y byddant wedi'u cwblhau.

Os oes unrhyw deuluoedd yn dal i ddisgwyl y daleb a anfonwyd yr wythnos diwethaf, dylent anfon e-bost at Prydauysgolamddim@caerdydd.gov.uk i roi gwybod i’r Cyngor.

Gweithwyr swyddfa Cyngor Caerdydd sydd wedi eu hadleoli i’r gwasanaethau digartrefedd yn achub bywyd

Achubwyd bywyd dyn digartref gan ddau o swyddogion Cyngor Caerdydd sydd wedi eu hadleoli. Fe aethon nhw ar frys i roi cymorth cyntaf i ddyn digartref wedi iddo lewygu a stopio anadlu.

Roedd y ddau swyddog wedi gwirfoddoli i ymgymryd â swyddi dros dro gyda'r tîm Hosteli ac Allgymorth, yn rhan o broject adleoli'r Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn parhau i weithredu yn ystod pandemig COVID-19.

Dim ond tair wythnos yn ôl y cafodd Val Broomfield ac Ashley Evans eu hadleoli o'u swyddi swyddfa gyda'r Adran Gyfreithiol a'r Tîm Cynaliadwyedd Tenantiaeth. Fe ddefnyddion nhw dechnegau Adfywio Cardio-pwlmonaidd, neu CPR, i adfywio'r dyn.

Derllanwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23627.html

Mae Angen Gweithwyr Gofal Arnom

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig cyrsiau hyfforddi treigl am ddim i geiswyr gwaith a gwirfoddolwyr i ddod yn weithwyr gofal cymwys.

Gan weithio mewn gofal cartref, gall ymgeiswyr llwyddiannus ennill £9.97 yr awr os ydynt yn ddi-waith. Byddwn hefyd yn talu am eich tystysgrif DBS os oes angen.

Mae croeso i weithwyr gofal a oedd wedi cymhwyso'n flaenorol a gellir eu rhoi ar lwybr carlam i rolau cymorth.

Ein sesiwn hyfforddi nesaf:
9.30am - 3.30pm, 15th - 17th Ebrill 2020
Ystafell Greadigol, 5ed Llawr, Llyfrgell Ganolog, yr Aes, Caerdydd CF10 1FL

Rolau ar gyfer gyrwyr a rhai nad ydynt yn gallu gyrru. Nid oes angen unrhyw brofiad na chymwysterau blaenorol.

Ffoniwch 07970 241 918 i gael gwybod mwy am y cwrs a chofrestru.

Parciau Caerdydd 'yn dawelach na'r arfer' er gwaethaf heulwen gŵyl y banc

Roedd Parciau Caerdydd ar y cyfan yn ddistaw y penwythnos hwn gyda'r rhan fwyaf o bobl yn parchu'r gofynion ymbellhau cymdeithasol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cynghorydd Peter Bradbury: "Mae'n debyg bod y rhan fwyaf o bobl wedi gwrando ar y neges i aros gartref, aros yn ddiogel y penwythnos hwn.

"Gyda'r haul yn tywynnu a'r tymheredd yn uchel dros benwythnos gŵyl y banc, byddai parciau Caerdydd fel arfer yn llawn pobl, ond mae ein staff parciau, sydd wedi bod allan ar batrôl gyda'r heddlu bob dydd, gyda chefnogaeth negeseuon drwy uchelseinydd gan Wylwyr y Glannau, yn adrodd bod parciau yn llawer tawelach na'r arfer a bod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn y gofynion ymbellhau cymdeithasol.

"Hoffwn ddiolch i'n holl drigolion – y rhai a arhosodd gartref a gwrthsefyll temtasiwn yr heulwen, a'r rhai a wnaeth eu hymarfer corff dyddiol yn ein parciau mewn ffordd gyfrifol."

Derllanwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23625.html